Gweithio dros aelodau 2004-05

Cyflwyniad y Cadeirydd

Gwelodd y flwyddyn ddiwethaf y Conffederasiwn yn atgyfnerthu ei safle yng nghalon y drafodaeth iechyd yng Nghymru. Dengys dau faes gwaith hyn yn arbennig o glir. Helpodd *Pictiwr o Iechyd*, a ddisgrifiodd y GIG yn 2015, i ailffocysu'r drafodaeth iechyd ar y dyfodol. Hoffwn ddiolch i bawb a weithiodd gyda ni ar y prosiect hwn, sy'n parhau i 2006. Yr uchafbwynt arall yw ein gwaith ar gyllid, a ddangosodd wir gostau newid, a'r angen brys i fuddsoddi i gynnal newid. Ar draws ein holl waith, ein cryfder unigryw yw ein bod yn cynrychioli pob sefydliad GIG yng Nghymru, ac yn medru siarad dros bawb gydag un llais. Felly hoffwn ddiolch i'n haelodau am eu cefnogaeth barhaol. Wrth edrych ymlaen at 2006, bwriadwn ehangu ein rhaglen digwyddiadau, yn cynnwys cynhadledd wanwyn yng Ngogledd Cymru a digwyddiadau rhanbarthol eraill. Mae'n fwriad gennym hefyd adeiladu ar lwyddiannau 2004-05, yr wyf yn falch eu cyflwyno i chi.

Meirion Hughes

Pictiwr o Iechyd 2015

Sut olwg fedrai fod ar y GIG a'r system iechyd ehangach yng Nghymru yn 2015? Mae llawer o newidiadau eisoes yn mynd rhagddynt ond at ba fath o wasanaeth y maent yn ein harwain? Ym mis Mawrth fe wnaethom gyhoeddi *Pictiwr o Iechyd*, sy'n ceisio ateb rhai o'r cwestiynau hyn. Cynhyrchwyd a chefnogwyd yr adroddiad gan gynghrair o sefydliadau iechyd, a gydlynwyd gan y Conffederasiwn, yn cynnwys y BMA, RCN, Cynghorau Iechyd Cymunedol Cymru, Colegau Brenhinol a seiadau doethion iechyd. Denodd yr adroddiad, a'r astudiaethau achos sy'n dangos lle mae'r dyfodol yn digwydd eisoes, lawer o sylw yn y wasg a diddordeb o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol a'r gymuned iechyd. Mae'r gynghrair yn parhau i gwrdd a chydweithio.

Cyllid GIG – buddsoddi i gynnal newid

Mae'r newidiadau sy'n trawsffurfio'r GIG yn newyddion da i gleifion, ond mae'r costau yn sylweddol ac mae angen buddsoddiad os yw'r newidiadau i gael eu cynnal. Dyna oedd neges yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf - *Trawsffurfio'r GIG - y dilema ariannol*. Mae contractau newydd, Agenda ar gyfer Newid a gweithredu cyfarwyddyd newydd NICE oll yn golygu fod y GIG yn wynebu bwlch rhwng costau a chyllid, sy'n dodi'r newidiadau hyn, a gwasanaethau, mewn risg. Cawsom gyfarfod gyda Phrif Weinidog a Gweinidog Iechyd y Cynulliad i drafod y materion hyn. Cyhoeddwyd cynnydd o £107 miliwn yn y gyllideb iechyd yn ddiweddar.

Er nad yw'r gyllideb hon wedi ei derbyn eto, rydym yn parhau i gyflwyno'r achos dros y buddsoddiad ychwanegol hwn y mae ei fawr angen.

Prif swyddog Undeb Rygbi Cymru yn annerch y Cysylltiad Cymreig 2004

Daeth dros 350 o ffigurau amlwg i Landudno ar 25-26 Tachwedd i fynychu *Y Cysylltiad Cymreig 2004*, y gynhadledd fwyaf o ddigon hyd yma. Cynrychiolwyd pob sefydliad sy'n aelod o'r Ffederasiwn, gyda chynrychiolwyr hefyd o'r sector masnachol a gwirfoddol, o lywodraeth leol, ac o Loegr. Dywedodd David Moffett, prif weithredydd Undeb Rygbi Cymru, mai'r opsiwn meddal yw'r opsiwn anghywir bob amser, mewn araith nodweddiadol ddi-flewyn ar dafod am wneud newid dadleuol. Cyflwynodd y Prif Weinidog ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus a llongyfarchodd y GIG yng Nghymru ar ostwng amserau aros hir. Cyflwynodd hefyd ein gwobr am arloesi i wasanaeth ambiwlans Cymru am eu canolfannau triniaeth symudol. Fe wnaethom helpu i sicrhau sylw yn y wasg Brydeinig ar gyfer yr enghraifft hon o arloesi yng Nghymru.

Dylanwadu ar y dylanwadwyr - gwleidyddion

- Cyfarfod gyda'r Prif Weinidog i drafod cyllid a newid y ffordd y darperir gwasanaethau.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda Dr Brian Gibbons, a benodwyd yn weinidog iechyd yn gynnar yn 2005.
- Cynnal briffiadau wyneb-i-wyneb gydag Aelodau Seneddol o Gymru yn San Steffan, yn cynnwys Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- Dechrau rhaglen o gyfarfodydd gydag Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymru.
- Datblygu rhaglen reolaidd o gyfarfodydd gyda chynghorwyr arbennig ac uwch weision sifil.
- Presenoldeb yng nghynadleddau'r pleidiau Cymreig.
- Cafodd ein briffiau ar faterion megis MRSA, cyllid a chyflyrau cronig eu defnyddio a'u nodi mewn dadleuon gwleidyddol ym Mae Caerdydd a San Steffan.

Digwyddiadau – cysylltu

- Cysylltiad Cymreig 2004 oedd y gynhadledd fwyaf hyd yma, gyda Phrif Weinidog Cymru a David Moffett, prif weithredwr Undeb Rygbi Cymru, ymysg y siaradwyr.
- Cynhaliwyd cynhadledd Ewropeaidd bwysig ar ddiogelwch cleifion, a rhaglen ehangach o weithgaredd, a ddaeth â 300 o arbenigwyr o 25 gwlad i Gaerdydd, gyda siaradwyr y gynhadledd yn cynnwys Syr Liam Donaldson.
- Cynnal digwyddiad di-dâl i aelodaeth ar y contact fferylliaeth newydd.
- Helpu i gydlynu'r diwrnod datblygu i aelodau bwrdd heb fod yn swyddogion a gynlluniwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol rhanbarth y de ddwyrain.
- Trefnu digwyddiad aelodau ar Agenda ar gyfer Newid mewn cysylltiad gyda'r Cynulliad.

Llunio'r drafodaeth ar y cyfryngau

- Sicrhawyd llawer o sylw yn y papurau newydd a'r cyfryngau darlledu am waith da ar gyflyrau cronig yng Nghymru, yn dilyn ein hadroddiad *O'r Rockies i'r Rhondda*.
- Rhoi sylwadau yn y Western Mail, Wales on Sunday ac ar y BBC ar rôl allweddol rheolaeth GIG.
- Darparu sylwadau rheolaidd i'r cyfryngau ar amserau aros, gan ddweud ein bod wedi troi'r gornel ar arosiadau hir yng Nghymru.
- Gyda chydweithwyr yr ymddiriedolaeth ambiwlans, ennyn llawer iawn o ddiddordeb yn y cyfryngau mewn cynllun ysbytai maes gwobrwyol, yn cynnwys rhwydweithiau Prydeinig a'r Unol Daleithiau.
- Rhoi deunydd gan aelodau i newyddiadurwyr a ddefnyddiwyd mewn straeon newyddion cadarnhaol.
- Cynnal briffiadau preifat rheolaidd gydag uwch newyddiadurwyr i helpu hysbysu eu sylw o faterion iechyd.

Hysbysu'r drafodaeth

- Lansiwyd gwefan newydd - **www.welshconfed.org** - gyda mynediad i'n holl ddogfennau, ynghyd ag adroddiadau allweddol y Cynulliad ac adroddiadau eraill ar iechyd, ynghyd â chysylltau defnyddiol i safleoedd iechyd o fewn Cymru a thu hwnt.
- Cynhyrchu brîff ar MRSA, yn tanlinellu sut mae Cymru yn arwain y Deyrnas Unedig wrth fynd i'r afael â'r broblem.
- Cyhoeddi "ystadegau llai hysbys" ar y GIG yng Nghymru i roi gwybodaeth i wleidyddion yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol.
- Gweithio gyda ABPI i gynhyrchu briffiad yn amlinellu arweiniad ar bartneriaeth gyda'r sector masnachol.
- Cynhyrchu briffiau newydd ar gyflyrau cronig a gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth.

Yng nghalon y drafodaeth polisi

- Arwain taith astudio i Kaiser Permanente Colorado a chynhyrchu adroddiad *O'r Rockies i'r Rhondda*, yn amlinellu gwersi i Gymru.
- Comisiynu golwg academaidd annibynnol ar wella fformiwla Townsend ar ddyraniad adnoddau.
- Cyd-lofnodi concordat a anelwyd i wella'r trefniadau arolygu yn GIG Cymru.
- Cyflwyno tystiolaeth i Gaerdydd, San Steffan a Brwsel ar faterion yn cynnwys: mesur iechyd meddwl, cyfeireb gwasanaethau EU o ddiddordeb cyffredinol, Creu'r Cysylltiadau, Cynllun Oes, Hysbysu Gofal Iechyd, rheoliadau meinwe dynol.
- Cryfhau ein perthynas gyda sefydliadau partner yng Nghymru, yn cynnwys Canolfan Iechyd Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Cyngor Meddygol Cyffredinol, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Grŵp Diwydiant Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Asiantaeth Genedlaethol Arweinyddiaeth ac Arloesi.

Symud ymlaen

- Croesawu Meirion Hughes yn gadeirydd newydd, yn olynu Lloyd FitzHugh.
- Croesawu pwyllgor rheoli newydd, yn cynnwys ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol.
- Sefydlu grŵp gweithredol o 4 cynrychiolydd ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol i roi ymateb a chyngor cyflym pan fo angen ar gyfer gwaith polisi, y wasg neu waith arall.
- Cadw 100% aelodaeth ymysg sefydliadau GIG yng Nghymru.

Gellir cael rhagor o gopïau oddi wrth:

NHS Confederation Publication Sales and Enquires
DS1 NE, 1 Enterprise Place, Rolling Mill Road
Jarrow, South Tyneside NE32 3DP

Ffôn 0870 444 5841 Ffacs 0870 444 5842
E-bost publications@nhsconfed.org

Elusen Gofrestredig rhif 1090329

THE WELSH NHS CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN GIG CYMRU

Conffederasiwn GIG Cymru
Regus House, Falcon Drive
Bae Caerdydd CF10 4RU

Ffôn 029 2050 4090 Ffacs 029 2050 4190
E-bost info@welshconfed.org

www.welshconfed.org